Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

**<u>CO22183 - Ysgol Gynradd Adamsdown</u>**

## ***<u>Disgrifiad o Gynnig y Cynllun</u>***

Mae'r Cyngor yn rhoi gwybod i breswylwyr am ei gynlluniau i wneud newidiadau i'r briffordd ar Constellation Street.

Mae rhwystrau culhau'r ffordd bresennol ar Constellation Street y tu allan i Ysgol Gynradd Adamsdown ger Caeau Anderson; mae'r rhain yn lleihau llif y traffig i un lôn. Cynigir tynnu'r rhwystrau a'u disodli â chroesfan sebra ddyrchafedig sy'n ymwthio i'r ffordd. Gall rhwystrau culhau'r ffordd amharu ar lif traffig, cythruddo gyrwyr, ac achosi oedi i deithiau bws. Bydd tynnu'r rhwytrau culhau â blaenoriaeth yn gwella dibynadwyedd amseroedd bysus drwy eu helpu i symud.

- Arafu cerbydau
- Gosod croesfan ddyrchafedig lawn a thynnu'r rhwystrau culhau'r ffordd.
- Ehangu'r droedffordd bresennol y tu allan i Ysgol Gynradd Adamsdown ar ochr ogleddol Constellation Street
- Rhoi Gorchymyn Rheoli Traffig newydd ar waith ar Constellation Street.

Bydd y mesurau arafu traffig yma yn gwella cyfleusterau croesi i gerddwyr yn yr ardal a hefyd yn helpu i leihau cyflymder cerbydau ar hyd Constellation Street gan wneud y briffordd yn fwy diogel i bawb sy'n ei defnyddio.

Mae'r cynllun yn cael ei ariannu drwy Gronfa Teithio Llesol Lywodraeth Cymru

Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau a allai fod gennych ynglŷn â'r cynigion. Rydym yn deall y gallai fod awgrymiadau eraill gennych i wella diogelwch ar Constellation Street. O ganlyniad i gyfyngiadau ariannol efallai na fydd modd i ni newid y cynlluniau hyn yn sylweddol ar hyn o bryd, ond byddwn yn cadw cofnod o unrhyw awgrymiadau a ddaw i law er mwyn eu cynnwys mewn cynlluniau yn y dyfodol.

Os hoffech wneud unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn, rhowch wybod i ni erbyn 27/7/2023 drwy e-bostio ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk.

## ***<u>Rhagor o Wybodaeth am fesurau rheoli traffig</u>***

<u>Nodweddion Arafu Traffig</u> Mae'r term hwn yn cyfeirio at fesurau rheoli traffig ffisegol penodol sy'n gorfodi gyrwyr i leihau cyflymder eu cerbydau. Mae'r rhain

yn cynnwys twmpathau ffordd, clustogau arafu, byrddau arafu, rhwystrau culhau'r ffordd, rhwystrau igam-ogamu, pyrth, cylchfannau a mesurau tebyg eraill.


Croesfan Sebra   Mae'r math hwn o groesfan yn addas i safleoedd lle mae lefelau cymedrol o gerddwyr a thraffig lle na chyfiawnheir ***croesfan pâl***. Gallant wasanaethu cerddwyr yn well gan nad oes angen aros am amser penodol i groesi. Gellir eu cyfuno'n ddefnyddiol ar y cyd â **rhwystrau ymwthiol** sy'n gwella gweledefdd i gerbydau a theithwyr eraill, yn lleihau pellteroedd croesi ac yn dangos bod cerddwyr yn bwriadu croesi'r ffordd.

Croesfan Sebra Ddyrchafedig.   Dyma le mae ***croesfan sebra*** yn cynnwys ***bwrdd arafu***, neu le mae'r groesfan wrth gyffordd ddyrchafedig, naill ai fel rhan o gyfres ehangach o fesurau arafu traffig neu ar ei phen ei hun.

Rhwystrau Culhau'r Ffordd   Mae hwn yn fath o ddull arafu traffig lle mae ***rhwystrau*** yn culhau'r ffordd fel mai dim ond un cerbyd ar y tro all basio.   Gydag unrhyw gynllun culhau ffordd, mae un cyfeiriad bob amser yn cael blaenoriaeth. Gallan nhw hefyd helpu cerddwyr i groesi'r ffordd gan fod y ffordd wedi'i chulhau a gallan nhw weld yn well. Maen nhw fwyaf effeithiol lle mae nifer debyg o gerbydau'n defnyddio'r ffordd i'r ddau gyfeiriad a lle mae yna rhwng 10 ac 20 o gerbydau bob munud ar oriau brig.

Gorchymyn Rheoli Traffig. Dyma gyfyngiadau a osodir ar y Briffordd sy'n cyfeirio, yn rheoli ac yn gwahardd symudiadau defnyddwyr y ffordd. Er enghraifft, cyfyngiadau cyflymder 20mya. Dim Mynediad. Dim Troi i'r Dde. Un Ffordd. Dim Aros.   Rhaid i'r rheoliadau hyn fod yn destun proses gyfreithiol hir.   Os cânt eu cymeradwyo, caiff arwyddion neu linellau eu gosod a gall yr Heddlu neu Swyddogion Gorfodi Sifil eu gorfodi.

e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3802 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn 27/7/2023




**The Council is consulting on the proposal on the plan shown.**

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3802 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by 27/7/2023

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD